Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd nos Fercher, 18 Mawrth 2026, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. Walker (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, S. Feeney, J. Kenney, Mrs D. L. King, B. Mellor, W. Price a Ms V. Roberts.

Hefyd yn bresennol:
Mrs M. A. Blakeley-Walker (arsylwr)
A. R. James (arsylwr)
Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref.

**38. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs S. Connolly, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, Ms R. S. Roberts, A. J. Rutherford a D. Simmons.

**39. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda.

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd angen gwneud unrhyw ddatganiadau.*

**40. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd i osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **Y RHESTR CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| i. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Currys, Uned 4 Parc Manwerthu Clwyd, Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2TJ<br><br>**WARD:** Derwen |

| | |
|---|---|
| | **CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs E. M. Chard<br>Mrs S. Connolly<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2026/0058/PF<br><br>**DISGRIFIAD**: Gosod compownd peiriannau allanol newydd yn yr iard gwasanaethu yn y cefn<br><br>**YMGEISYDD:** Ian Fairley (Currys PLC)<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| ii. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 64 Ffordd Aberkinsey, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4FB<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs M. A. Blakeley-Walker<br>W. Price<br>Mrs V. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2026/0038/HH<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu tŷ haf yn nhu ôl yr annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Graham Simpson<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| iii. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Hafod Mental Health Resource Centre, Ffordd Beechwood, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3EU<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs J. M. Evans<br>K. R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2026/0049/TP<br><br>**DISGRIFIAD:** Tocio un goeden sycamorwydden, sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed, yn ôl i'r pwyntiau tocio blaenorol<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Chesney Saxon (Sherratt Group)<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| iv | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Adeilad Conrad, Stryd Windsor, Y Rhyl, Sir Ddinbych<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: J. Kenney<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2026/0074/PC<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd swyddfa flaenorol yn llety preswyl (fflat un |

| | |
|---|---|
| | ystafell wely) (cais ôl-weithredol)<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Faisal Aslam (Akhtar Property Ltd)<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| v | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 7 Teras Wellington, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1NA<br><br>**<u>WARD:</u>** Foryd<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Mrs J. Butterfield YH MBE<br>A. R. James<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2026/0045/PF<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Newid defnydd o annedd preifat i gartref preswyl i blant ar gyfer un plentyn / dau sibling i fyw yno gyda chefnogaeth staff 24/7<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mrs Phillippa Hughes (38.6 Solutions)<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| vi | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 52 - 54 Ffordd y Cilgant, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1PB<br><br>**<u>WARD:</u>** Bodfor<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: J. Kenney<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2026/0020/PF<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Newid defnydd rhan o adeilad o swyddfa yn annedd sengl<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr S Sohail (Sohail Properties Holding Ltd.)<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| vii | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Tir yn Rhodfa'r Gorllewin, Rhodfa Sydenham a Rhodfa Sandringham, Y Rhyl, Sir Ddinbych<br><br>**<u>WARD:</u>** Foryd<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Mrs J. Butterfield YH MBE<br>A. R. James<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2025/0472/MD<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Adeiladu 32 annedd fforddiadwy, llunio mynedfeydd newydd i gerbydau, mannau parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Cymdeithas Tai Clwyd Alyn<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |

| | |
|---|---|
| viii | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Ystafell Ocsiwn, 82 Ffordd y Morfa, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2AE<br><br>**<u>WARD:</u>** Cefndy<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Mrs D. L. King<br>Ms R. S. Roberts<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2026/0069/PF<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Newid gweithdy/ystafell ocsiwn nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach i ffurfio campfa/lle ymarfer bocsio cymunedol<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Daniel Andrews (Clwb Bocsio Ieuenctid y Rhyl)<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| ix | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Burger King, Parc Manwerthu Cei'r Marina, Ffordd Wellington, Y Rhyl, Sir Ddinbych<br><br>**<u>WARD</u>:** Foryd<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Mrs J. Butterfield YH MBE<br>A. R. James<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2026/0086/AD<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Arddangos arwyddion yn gysylltiedig â'r safle Burger King newydd<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Andy Pye (BKUK)<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>:** Dim gwrthwynebiad* |
| x | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 13 - 19 Stryd Elwy, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1BS<br><br>**<u>WARD:</u>** Bodfor<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: J. Kenney<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2026/0088/PF<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Gosod tair uned storio dur maint safonol 40 troedfedd, wedi'u gosod ochr wrth ochr, i ffurfio cyfleuster hamdden a manwerthu ar raddfa fechan. Dwy uned storio i ffurfio lleoliad saethu reifflau awyr dan do ac un uned storio i'w defnyddio fel uned fanwerthu'n gwerthu offer ac atodion yn ymwneud â gynnau ac eitemau storio gynnau.<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Phillip Arnold<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Gwrthwynebu ar y sail y gallai'r cynnig arfaethedig ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol a dwyn, a dod yn darged i weithgareddau troseddol.* |

| | |
|---|---|
| | *Mae defnyddio unedau storio ar gyfer gweithgareddau manwerthu a saethu yn codi pryderon ychwanegol ynghylch addasrwydd a diogeledd y strwythur ar gyfer lleoliad saethu ac uned manwerthu reifflau.*<br><br>*Nid yw'r cais yn cynnwys unrhyw fanylion am gamau diogelwch megis camerâu teledu cylch cyfyng, larymau na dulliau rheoli mynediad. Cyfeirir at storfa ddiogel dan glo i gadw gynnau yn unig.*<br><br>*Heb wybodaeth glir am y trefniadau diogeledd, goruchwylio, rhwystrau diogelwch a dulliau rheoli gweithredol, cred y Cyngor Tref y gallai'r cynnig arfaethedig hwn greu pryder i ddiogelwch y cyhoedd. Byddai wedi hoffi gweld sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru ynghylch hyn, o ran atal troseddau neu'r ystyriaethau diogeledd ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys reifflau awyr.*<br><br>*Felly mae'r Cyngor Tref yn gofyn am adolygu'r cais yn ofalus a'i gwneud yn ofynnol cyflwyno mesurau diogelwch a diogeledd priodol cyn ystyried cymeradwyo'r cais.* |
| xi | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 51 Rhodfa Pendre, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4NH<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs M. A. Blakeley Walker<br>W. Price<br>Mrs V. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2026/0102/HH<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad to gwastad unllawr ar flaen yr annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Mr a Mrs Billy a Julie Abbott<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |

**41. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: ……………..…………

Dyddiad: ……………………......